Llywodraeth Cymru
Welsh Government

NOSC2026
Rhif 22

# Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53981, ISBN digidol 978-1-83745-050-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol Llywodraeth Cymru 2026

## 1. Diben a Chyd-destun

Mae'r datganiad hwn yn nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat yn ystod y cyfnod pontio i fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer Cymru, gan gydnabod y bydd Ofwat hefyd yn ymateb i gyfarwyddyd Llywodraeth y DU ar ddiwygio dŵr ar gyfer Lloegr. Mae'n adlewyrchu rhaglen diwygio dŵr Llywodraeth Cymru, y Cynllun Pontio, a'r bwriad polisi a amlinellir yn y Papur Gwyrdd Diwygio Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru.

Fel mesur interim, mae'r Datganiad hwn yn adeiladu ar yr amcanion a'r blaenoriaethau, y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol (SPS) i Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ym mis Gorffennaf 2022 i'r blaenoriaethau strategol a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2022, gan sicrhau bod y cyfeiriad yn parhau trwy'r cyfnod hwn o ddiwygio. Wrth ymateb i'r SPS hwn, dylai Ofwat barhau i weithredu yn unol â SPS 2022 a dylai gynllunio ar y sail bod yr amserlenni ar gyfer newid yng Nghymru ac yn Lloegr yn wahanol. Yng Nghymru, rydym yn rhagweld tri cham yn **amodol ar gytundeb gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli cymhwysedd deddfwriaethol a swyddogaethau gweithredol pellach i Gymru er mwyn galluogi sefydlu rheoleiddiwr economaidd ar gyfer dŵr**:

- Cam 1 Newid deddfwriaethol: 2026 i oddeutu 2028 / 2029
- Cam 2 Sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru a swyddogaeth cynllunio system ar gyfer dŵr: 2028 – dechrau'r 2030au
- Cam 3 Rheoleiddiwr economaidd ar gyfer dŵr wedi'i sefydlu ac yn ymgymryd â rôl: canol y 2030au ymlaen

Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, y bydd **dau gyfnod pontio** i'w llywio o fewn y tri cham o newid a amlinellir uchod ac rydym yn disgwyl i Ofwat – ac unrhyw gorff olynol – gefnogi'r gwaith o ddiwygio dŵr yng Nghymru a pharhau i gyflawni eu swyddogaethau craidd i Gymru ar hyd yr amser.

Yn amodol ar gytundeb â Llywodraeth y DU, mae'r ddau gyfnod pontio yn debygol o fod:

- Yn gyntaf, y cyfnod o gyhoeddi'r ddogfen hon lle mae Ofwat yn ystyried Cynllun Pontio ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn ymateb iddo (i'w gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf) ac yn cefnogi sefydlu rheoleiddiwr integredig newydd, yn bennaf ar gyfer Lloegr. Er mwyn sicrhau nad oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer cwmnïau dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, bydd Ofwat, ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol, yn parhau i ddarparu swyddogaethau rheoleiddio economaidd i Gymru.

- Yn ail, y cyfnod o basio deddfwriaeth y Senedd i sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru ar gyfer dŵr (sy'n debygol o fod ar ddiwedd y 2020au) a phan fydd Rheoleiddiwr economaidd newydd Cymru dros ddŵr wedi'i sefydlu, yn dod yn weithredol ac yn cymryd cyfrifoldeb am y swyddogaethau y mae Ofwat yn eu cyflawni yng Nghymru ar hyn o bryd (amcangyfrifir y bydd hyn yn digwydd yng nghanol y 2030au). Rydym yn disgwyl i Ofwat, ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol, gefnogi a hwyluso'r trawsnewidiad i reoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn llywio hyn ymhellach yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnodau hyn, rydym yn disgwyl i Ofwat ac unrhyw reoleiddiwr dilynol ddarparu ymarferoldeb cyfartal i Gymru ac adlewyrchu gofynion deddfwriaethol neu bolisi penodol i Gymru yn eu gwaith, eu cyngor a'u penderfyniadau sy'n ymwneud â Chymru. O ystyried y cyfnodau gwahanol o newid yng Nghymru a'r cyfnod pontio hirach, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyhoeddi cyfres o Ddatganiadau Polisi Strategol. Bydd y rhain yn darparu eglurder ac arweiniad pellach, i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Diwygio Dŵr i Gymru a chefnogi'r gwaith o sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd i Gymru ar gyfer dŵr.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw system ddŵr sy'n gynaliadwy, yn wydn ac yn darparu gwerth cyhoeddus, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r datganiad hwn yn rhoi eglurder ar flaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod pontio cyntaf hwn, sef sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad prisiau nesaf a gosod y sylfeini ar gyfer rheoleiddiwr economaidd Cymru yn y dyfodol ar gyfer y sector dŵr a'r swyddogaeth cynllunio system genedlaethol.

### 2. Fframwaith Deddfwriaethol

O dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat mewn perthynas â'i swyddogaethau a gyflawnir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Mae'r SPS hwn yn gweithredu o fewn y fframwaith hwnnw ac yn nodi cyfeiriad teithio Llywodraeth Cymru tuag at fodel rheoleiddio Cymreig penodol. Bydd trefniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth Cymru, wedi'u llywio gan y Papur Gwyrdd a'r Papur Gwyn dilynol, sy'n ymgorffori egwyddorion o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r ddeddfwriaeth Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Targedau Bioamrywiaeth) sydd ar ddod. Gweithio o fewn y fframwaith ehangach, neilltuedig ar gyfer cystadleuaeth a marchnadoedd a diogelu defnyddwyr. Bydd Ofwat yn parhau i reoleiddio cwmnïau o Gymru gan ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru ac yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru nes bod trefniadau newydd ar waith.

### 3. Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Cam 1 y Cyfnod Pontio yng Nghymru

## Y Diwydiant Dŵr

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd Ofwat yn ymateb i gynlluniau Llywodraeth y DU i sefydlu rheoleiddiwr integredig newydd, yn bennaf ar gyfer Lloegr. Yn ystod y cyfnod hwn o newid i Ofwat, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat, ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol, barhau i reoleiddio'n effeithiol gwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cydweithredu agos wrth ddylunio a gweithredu dull goruchwylio newydd a chreu dulliau sy'n gymesur. Wrth i gynlluniau ar gyfer sefydlu rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru fynd rhagddynt, rydym yn disgwyl i Ofwat a'i gorff olynol gefnogi a hwyluso'r trawsnewidiad i reoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru.

I gyflawni hyn, dylai Ofwat weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Bydd hefyd angen cydweithrediad agos â Defra, Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dylai Ofwat ac unrhyw reoleiddiwr integredig dilynol barhau i gyflawni swyddogaethau'r rheoleiddiwr economaidd annibynnol ar gyfer dŵr yng Nghymru hyd nes y bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu cymryd gan y rheoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru.

O ystyried y bydd Ofwat yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol yn ymateb i ddiwygiadau Llywodraeth y DU a hefyd o ystyried y bwriad i sefydlu rheoleiddiwr economaidd ar gyfer dŵr yng Nghymru, dylai Ofwat – ac wedyn y rheoleiddiwr integredig newydd – gymryd camau i sicrhau bod strwythur ac adnoddau priodol i sicrhau bod gan Gymru a chwmnïau dŵr Cymru lefel ddigonol o ffocws. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod arbenigedd technegol priodol a chapasiti arwain strategol i gymryd rhan lawn yn y gwaith o lywio'r broses o ddiwygio dŵr yng Nghymru. Bydd y capasiti hwn yn cefnogi'r trawsnewidiad yn y pen draw i reoleiddiwr economaidd newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru lle bo hynny'n briodol yn unol â deddfwriaeth gyflogaeth.

### 3.1 Adolygiad Prisiau 2029 (PR29)

**Paratoi ar gyfer yr Adolygiad Prisiau nesaf:** Dylai Ofwat gymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i gefnogi'r paratoadau ar gyfer yr Adolygiad Prisiau nesaf (Adolygiad Prisiau 2029) i'w gynnal yn effeithiol ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru cyn i'r rheoleiddiwr integredig newydd ymgymryd â'r rôl.

Wrth baratoi ar gyfer yr Adolygiad Prisiau, dylai Ofwat ystyried yr amgylchedd buddsoddi a'r uchelgeisiau hirdymor ar gyfer rheoleiddio economaidd i fod yn sefydlog ac yn rhagweladwy. Rydym yn disgwyl i Ofwat weithio'n dryloyw gyda chwmnïau dŵr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac ymgysylltu'n weithredol â Fforwm Adolygu Prisiau Cymru, a fydd yn cael ei gadeirio gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Dylid cyflawni PR29 mewn ffordd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru o ran fforddiadwyedd, gwytnwch a chanlyniadau amgylcheddol.

Gan adeiladu ar brofiad cadarnhaol PR24, bydd Llywodraeth Cymru yn ailgynnull Fforwm Adolygu Prisiau a fydd yn cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol gan gynnwys Ofwat i ddatblygu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cymru ac rydym yn disgwyl i Ofwat ymateb wrth nodi ei benderfyniad. Rydym yn disgwyl i Ofwat weithio'n agored ac yn adeiladol drwy'r fforwm hwn, gyda rheoleiddwyr eraill a gyda'r sector dŵr yn fwy cyffredinol lle bynnag y bo hynny'n briodol.

O ystyried y berthynas rhwng yr Adolygiad Prisiau hwn a'r gwaith diwygio ehangach – a bod hyn yn ddechrau taith tuag at sefydlu rheoleiddiwr economaidd ar wahân ar gyfer dŵr yng Nghymru – dylai Ofwat weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Fforwm PR29 Cymru i sicrhau bod ei baratoadau ar gyfer yr Adolygiad Prisiau yn ystyried y diwygiadau arfaethedig.

Dylai Ofwat sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer PR29 yn cael ei gosod gan ystyried y diwygiadau a nodir yn y Cynllun Pontio ar y Cyd sydd ar ddod rhwng y DU a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys tynnu'r Asesiad Ansawdd ac Uchelgais (QAA) yn ôl a rhesymoli'r fframwaith ar gyfer ymrwymiadau perfformiad a Chymhellion Cyflawni Canlyniadau (ODIs). Rydym yn disgwyl i ymrwymiadau perfformiad a'r fframwaith ODI fod yn benodol i Gymru a chwmnïau Cymru yn y dyfodol.

Dylid cydweithio’n agosach a gweithio mewn gwir bartneriaeth, gan sicrhau bod arferion rheoleiddio yn ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r uchelgais ar y cyd ar gyfer canlyniadau economaidd a chymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru.

Rydym yn disgwyl i Ofwat gael mwy o ffocws ar fuddsoddiad cynnal a chadw a hyrwyddo iechyd asedau, gan gynnwys camau fel neilltuo lwfansau cynnal a chadw cyfalaf sylfaenol.

Sicrhau bod methodoleg PR29 yn cefnogi ein nod o ddarparu eglurder ar gyfer cynllunio buddsoddi hirdymor.

Ymgysylltu ag asiantaethau asesu credyd i ddeall eu methodolegau a'u meini prawf ac i ddatblygu dull rheoleiddio i gynnal hyder yr asiantaethau hyn yn y diwydiant dŵr. Mae hyn er mwyn helpu i wella sgôr credyd y cwmnïau dŵr yng Nghymru gyda'r nod o gadw costau ariannu cwmnïau dŵr (sy'n cael eu talu i raddau helaeth gan filiau cwsmeriaid) mor isel â phosibl.

### 3.2 Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl safonau uchel o dryloywder ac uniondeb ar draws cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru. Dylai penderfyniadau Rheoleiddiol Ofwat ystyried safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, megis – tegwch, cynaliadwyedd, gwerth cyhoeddus yng nghyd-destun dyletswyddau Ofwat — a chryfhau atebolrwydd am gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.

## Y Diwydiant Dŵr

Wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chwmnïau yng Nghymru, dylai Ofwat a chwmnïau sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dylent sicrhau bod gweithgareddau rheoleiddiol yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.